



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Foster Care Co-operative**

**15–17 Stryd Harrowby  
Caerdydd  
CF10 5GA**

**Dyddiad Cyhoeddi**

**Dydd Gwener, 25 Mai 2018**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun*

## **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Cafodd The Foster Care Co- operative (FCC) (Cymru) ei gofrestru yn gyntaf fel asiantaeth faethu annibynnol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2004. Mae'r swyddfa gofrestredig yng Nghaerdydd; Kim Perkins yw'r rheolwr cofrestredig ac mae'r darparwr cofrestredig wedi enwebu 'unigolyn cyfrifol' sy'n goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth. Cofrestrir The Foster Care Co-operative fel sefydliad cydweithredol gyda 'Co-operatives UK' ac mae'n sefydliad nad yw'n gwneud elw. Mae'r staff yn aelodau o'r sefydliad cydweithredol ac mae gofalwyr maeth yn aelodau cysylltiol. Ar adeg yr arolygiad, roedd 37 cartref maeth oedd wedi'u cymeradwy gan yr asiantaeth, gan gynnwys nifer fechan yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Roedd 42 o blant wedi cael eu lleoli, gan gynnwys dau mewn lleoliadau 'rhiant a phlant' ar wahân.

## **Crynodeb o'n canfyddiadau**

### **1. Asesiad cyffredinol**

Roedd yr FCC wedi elwa o arweinyddiaeth gyson: roedd yr un unigolyn cyfrifol wedi bod yn y gwasanaeth ers 2004 ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi bod yn y swydd ers 2014. Bu rhai absenoldebau staff a newidiadau yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd adborth yn nodi bod hyn wedi effeithio ar ansawdd a chysondeb y gefnogaeth a gafwyd gan rhai gofalwyr maeth. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd pob swydd wag staff wedi ei llenwi ac roedd 'swydd prif weithiwr cymdeithasol' newydd wedi'i sefydlu er mwyn cryfhau gweithrediad y gwasanaeth. Gwnaethom dderbyn adborth cadarnhaol iawn ar y cyfan gan ofalwyr maeth am eu cymorth a hyfforddiant, a gwnaethant dynnu sylw at yr ymgais a wnaed gan yr asiantaeth i sicrhau bod plant yn cael eu gosod mewn lleoliadau cynaliadwy lle byddai eu hanghenion gofal a chymorth yn adnabyddus ac yn cael eu diwallu.

Canfuom fod plant wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol, bod y rhan fwyaf yn cadw mewn cysylltiad â'u gofalwyr ar ôl gadael eu lleoliadau, a bod llawer yn parhau i fyw gyda'u gofalwyr ar ôl cyrraedd 18 mlwydd oed. Roedd sefydlogrwydd a chynaliadwyedd lleoliadau yn dda yn ogystal â phresenoldeb yn yr ysgol a chyrraedd addysgol. Canfuom nad oedd rhai gofalwyr maeth wedi mynychu hyfforddiant angenrheidiol a bod y rhan fwyaf o ofalwyr maeth, staff a rheolwyr yn teimlo bod angen ail-werthuso'r trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant a grwpiau cymorth. Canfuom nad oedd rhai gofalwyr maeth wedi mynychu hyfforddiant angenrheidiol a bod y rhan fwyaf o ofalwyr maeth, staff a rheolwyr yn teimlo bod angen ailwerthuso'r trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant a grwpiau cymorth.

### **2. Gwelliannau**

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud i'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth a hyfforddiant i ofalwyr maeth yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Roedd swydd prif weithiwr cymdeithasol newydd wedi'i chreu ac roedd gwybodaeth well wedi cael ei chreu ar gyfer darpar ofalwyr maeth pan oeddent yn mynychu'r 'panel maethu'.

### **3. Gofynion ac argymhellion**

Ni chafodd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio eu nodi ac mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwelsom dystiolaeth fod plant yn cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol o fewn lleoliadau sefydlog a chynaliadwy.

## Ein canfyddiadau

Mae'r wybodaeth ar gyfer plant wedi'i datblygu'n dda. Cadarnhaodd plant mewn holiaduron a gwblhawyd fel rhan o'r arolygiad hwn eu bod yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am eu lleoliadau a gwelsom fod 'canllawiau i blant ar ofal maeth' yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol gyda'r bwriad o ateb eu cwestiynau ac egluro unrhyw ansicrwydd. Roedd canllawiau gwybodaeth ar gyfer plant o wahanol oedrannau yn ogystal â 'phroffiliau gofalwyr maeth' oedd yn cynnwys gwybodaeth a lluniau o ofalwyr maeth, eu teuluoedd a chartrefi, ac roedd rhai yn cynnwys lluniau o ddarpar ystafelloedd gwely plant. Nid oedd rhai gofalwyr wedi cynhyrchu 'proffiliau' cyfredol ond esboniodd y rheolwr fod hwn oherwydd eu bod yn darparu lleoliadau tymor hir ac nid oedd ganddynt lefydd gwag. Nid oedd rhai gofalwyr wedi cynhyrchu 'proffiliau' cyfredol ond esboniodd y rheolwr fod hyn oherwydd eu bod yn darparu lleoliadau tymor hir ac nid oedd ganddynt lefydd gwag. Roedd proffiliau gofalwyr maeth ar wahân wedi'u cynhyrchu i gynorthwyo 'datganiadau o ddiddordeb' a wnaed i awdurdodau lleol am addasrwydd gofalwyr maeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod pob plentyn yn derbyn 'pecyn croeso' pan oedd yn cyrraedd ei leoliad a bod cynnwys hwn wedi'i selio ar yr hyn oedd yn hysbys amdano fel unigolyn a'r pethau oedd yn bwysig iddo. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn prosesau creu lleoliadau.

Mae'r plant yn cael eu gosod gyda gofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad i gwrdd â'u hanghenion. Cawsom ein darparu ag adborth cadarnhaol gan grŵp o ofalwyr maeth ynglŷn â'r ymdrech a wneir i 'baru' plant â gofalwyr maeth gyda'r profiad a'r gallu i ddiwallu eu hanghenion. Dywedasant wrthym fod lleoliadau yn cael eu cynllunio'n bennaf ac yn cynnwys cyfarfodydd cyn lleoliad a bod eu gofalwyr cymdeithasol goruchwyliol yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am blant ar gael o awdurdodau lleol. Gwelsom dystiolaeth fod ceisiadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd ar gyfer gwybodaeth ychwanegol a bod dogfennau atgyfeirio a chomisiynu yn cynnwys y rhesymau yr oedd gofalwyr maeth yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer eu 'paru' gyda phlant. Rydym yn argymhell bod cofnodion ysgrifenedig yn cael eu gwneud o'r rhesymau hyn sy'n cynnwys yr union elfennau sy'n cael eu hystyried ar gyfer paru yn ogystal ag unrhyw faes lle gallai fod angen cymorth neu hyfforddiant ychwanegol ar ofalwyr maeth i ddiwallu eu hanghenion o fewn gofal maeth a/neu gytundebau lleoliad maeth. Darparwyd 'blychau cof' i'r plant gael casglu cofroddion a lluniau o weithgareddau ac achlysuron arbennig yn ystod eu lleoliadau.

Mae plant yn ffynnu mewn lleoliadau sy'n hyrwyddo eu llesiant ac yn eu harwain at fywydau gweithgar a chyflawn. Roedd tystiolaeth o waith ymgynghori a gynhaliwyd gan yr asiantaeth gyda'r plant yn cynnwys y datganiadau canlynol:

- *'Rwy'n byw mewn cartref hyfryd'*
- *'Rwy'n byw mewn cartref hapus'*

Dyweddodd fod:

- 83% o'r plant wedi rhoi gradd gyffredinol o 'ardderchog' i'w cartref maeth
- 17% wedi rhoi gradd 'da iawn' i'w cartref maeth.

Roedd yn cynnwys adborth oddi wrth y plant o ran pa mor aml roeddent yn cymryd rhan mewn hobiau a diddordebau ac yn mynychu grwpiau gweithgaredd. Dywedodd fod:

- 47% o'r plant yn cymryd rhan mewn tri neu mwy o weithgareddau strwythuredig
- 11% yn cymryd rhan mewn dau weithgaredd strwythuredig
- 21% yn cymryd rhan mewn un weithgaredd strwythuredig
- 21% nad oeddent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn weithgareddau strwythuredig

Roedd yr asiantaeth wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer plant, gofalwyr maeth a staff, a oedd yn cynnwys sglefrio iâ yn y gaeaf a theatr yn yr awyr agored a barbeciw yn yr haf. Roedd digwyddiadau ar wahân wedi cael eu trefnu ar gyfer plant a gofalwyr maeth yng nghanolbarth a gogledd Cymru ac roedd cystadlaethau barddoniaeth a dylunio wedi cael eu trefnu. Rydym yn dod i'r casgliad fod plant yn graddio eu lleoliadau yn uchel iawn a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden er mwyn hyrwyddo cynhwysiad a chael hwyl.

Mae plant yn cael eu trin fel aelodau o'r teulu yn eu lleoliadau. Roedd adborth gan weithiwr cymdeithasol a oedd yn rheoli achos un plentyn yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- *Mae xxx wedi cael ei groesawu i gartref y teulu*
- *Mae xxx yn cael annibyniaeth o fewn y cartref*
- *Mae xxx wedi cael cynnig dod â ffrind i aros dros nos*
- *Mae xxx wedi parhau i fyw gyda'i ofalwyr maeth ar ôl cyrraedd 18 oed*

Roedd adborth y plant hefyd yn datgan bod eu ffrindiau yn cael croeso wrth ymweld. Roedd ymgynghoriad wedi cael ei gynnal gyda 'phlant genedigol' gofalwyr maeth, gan gynnwys plant genedigol oedd yn oedolion, ac roedd yn dangos nad oeddent eisiau mynychu grwpiau cymorth sy'n benodol ar gyfer plant genedigol a bod eu safbwyntiau am fyw gyda phlant oedd wedi cael eu lleoli gyda'u teuluoedd yn gadarnhaol iawn. Mae plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae eu hawliau yn cael eu parchu yn eu lleoliadau.

Mae'r asiantaeth yn monitro effeithiolrwydd lleoliadau o ran cyflawni'r canlyniadau bwriedig. Roedd yr adroddiad ar yr adolygiad ansawdd gofal yn cynnwys gwybodaeth am *'leoliadau yn dod i ben, yn methu, ac yn cael eu hamharu'* ac roedd yn dangos y daeth 28 lleoliad i ben yn ystod cyfnod 2017 a 2018 am y rhesymau canlynol:

- Roedd pedwar yn lleoliadau rhiant a phlentyn gydag amser cyfyngedig
- Roedd pedwar ohonynt yn achosion ble'r oedd y gofalwyr maeth, ynghyd â'r plant oedd wedi'u lleoli gyda nhw, wedi trosglwyddo i wasanaethau maethu awdurdod lleol
- Symudodd un unigolyn yn ôl y disgwyl i drefniadau byw annibynnol
- Arhosodd pump gyda'u gofalwyr ar ôl cyrraedd 18 oed
- Arhosodd un gyda'i ofalwyr yn ddarostyngedig i orchymyn gwarcheidwaeth arbennig
- Dychwelodd ddau yn ôl y disgwyl i fyw gyda'u teuluoedd
- Symudodd un plentyn oedd mewn lleoliad tymor byr yn ôl y disgwyl i leoliad hirdymor
- Methodd deg lleoliad

Roedd dadansoddiad yr asiantaeth o'r rhesymau am leoliadau yn methu yn cynnwys 'ymddygiad heriol', ofn cyhuddiadau, a bod rhai plant wedi dychwelyd i fyw gyda'u teuluoedd ac yn gwrthod dychwelyd i'w lleoliadau. Mae canlyniadau lleoliadau yn cael eu monitro er mwyn gwella effeithiolrwydd y paru a gweithgareddau cefnogi lleoliadau.

Rydym yn dod i'r casgliad fod plant yn cael profiad o gyflwyniadau a gynllunnir yn bennaf i leoliadau cynaliadwy a'u bod yn byw gyda gofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad i ddiwallu eu hanghenion. Maent yn mwynhau datblygu ymlyniadau cadarnhaol gyda'u gofalwyr maeth ac yn dilyn hobiau a diddordebau sy'n eu cefnogi i ddatblygu cyfeillgarwch a chynhwysiant cymunedol. Maent yn mwynhau datblygu ymlyniadau cadarnhaol gyda'u gofalwyr maeth ac yn dilyn hobiau a diddordebau sy'n eu cefnogi i ddatblygu cyfeillgarwch a chynhwysiant cymunedol.

## **2. Gofal a Chymorth**

### **Crynodeb**

Mae plant yn ffynnu mewn lleoliadau sefydlog ac yn derbyn gofal a chymorth gan ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad i ddiwallu eu hanghenion. Maent yn derbyn gofal a chymorth unigoledd er mwyn cyflawni eu potensial – yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn addysgol. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth gadarn yn bennaf gan yr asiantaeth ond dywedodd rhai bod ansawdd y gefnogaeth wedi bod yn amrywiol oherwydd newidiadau i'r staff ac absenoldebau. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth gadarn yn bennaf gan yr asiantaeth ond dywedodd rhai fod ansawdd y gefnogaeth wedi bod yn amrywiol oherwydd newidiadau i'r staff ac absenoldebau.

### **Ein canfyddiadau**

Mae plant yn byw mewn lleoliadau cynaliadwy ble mae eu hanghenion gofal a chymorth yn hysbys ac yn cael eu diwallu a'u monitro. Dywedodd gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol wrthym fod ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol ynglŷn â phlant yn amrywiol ond bod yr asiantaeth bob amser yn ceisio gwybodaeth ychwanegol am eu hanghenion penodol wrth wneud lleoliadau. Gwelsom fod cynlluniau gofal a chymorth ar waith a bod yr asiantaeth yn cwblhau 'Trefniadau Lleoliadau Maeth' yn rheolaidd er mwyn gwneud pwrpas ac amcanion lleoliadau plant yn eglur. Gwelsom fod y rhain yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant a bod 'cynlluniau gweithredu rheoli risg' manwl wedi'u cwblhau lle'r oedd ffactorau risg mwy arwyddocaol yn cael eu nodi. Gwelsom fod y rhain wedi bod yn destun adolygiad parhaus a bod cyfarfodydd amlasiantaeth wedi'u cynnal er mwyn cydlynu cynlluniau i'w diogelu. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol bob amser yn ymgynghori gyda'r plant pan oeddent yn ymweld â gofalwyr maeth, a'u bod yn monitro'u llesiant a bod canlyniadau bwriedig eu lleoliadau yn cael eu cyflawni. Gwelsom dystiolaeth mewn cofnodion o'u hymweliadau fod canlyniadau llesiant y plant yn cael eu monitro a bod adroddiadau misol yn cael eu cwblhau gan y gweithwyr cymdeithasol maeth am eu cynnydd. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod y plant yn gweld eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol fel rhan ychwanegol o'u rhwydwaith cefnogi. Mae gofalwyr maeth a'r asiantaeth yn diogelu a hyrwyddo lles a llesiant y plant yn effeithiol.

Mae plant yn cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu a chyflawni eu potensial. Gwnaethom gwrdd ag ymgynghorydd addysg a gyflogir gan yr asiantaeth, a ddywedodd wrthym fod ei rôl yn cynnwys cysylltu â gweithwyr proffesiynol addysg a darparu hyfforddiant 'addysg' i ofalwyr maeth, yn ogystal â darparu cefnogaeth i blant unigol – er enghraifft, wrth newid ysgolion ac os na fyddent wedi bod yn mynychu'n rheolaidd yn flaenorol. Dywedodd wrthym ei fod yn derbyn adroddiadau misol oedd wedi'u cwblhau gan y gweithwyr cymdeithasol



maeth i'w gynorthwyo wrth fonitro presenoldeb, cyrhaeddiad a chynnydd plant, a bod gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol yn datgan bod:

- *96% o blant o oedran ysgol statudol yn meddu ar Gynllun Addysg Personol*
- *86% o blant a leolir gyda'r gwasanaeth â phresenoldeb sy'n fwy na 95% yn yr ysgol*
- *41% o blant wedi cyflawni presenoldeb o 100%*
- *dau o'r plant wedi sefyll arholiadau TGAU yn gynnwys ym Mlwyddyn 10*
- *sawl plentyn wedi sefyll arholiadau TGAU*
- *yr holl blant a gwblhaodd Flwyddyn 11 wedi mynd ymlaen i addysg uwch*
- *nifer o blant wedi mynychu coleg a bod un yn mynychu Prifysgol Caerdydd ac yn aros gyda'i ofalwyr maeth mewn lleoliad 'Pan Fydda i'n Barod'*

Roedd y gofalwyr maeth yn darparu adborth cadarnhaol iawn am y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr ymgynghorydd addysg. Dywedon nhw fod hyn yn cynnwys hyfforddiant am eu rolau eu hunain mewn hyrwyddo addysg plant ac o ran eirioli drostynt er mwyn sicrhau bod ganddynt gyfleoedd ar gyfer mynychu'r ysgol a chyflawni eu potensial. Roedd adborth plant mewn holiaduron a gwblhawyd fel rhan o'r arolygiad hwn yn datgan eu bod yn derbyn cymorth da iawn gan eu gofalwyr maeth gyda'u gwaith cartref. Mae gofalwyr maeth a'r asiantaeth yn hyrwyddo addysg plant yn gadarn.

Ceir mynediad i gefnogaeth therapiwtig drwy wasanaethau cymunedol. Nid oedd yr asiantaeth yn darparu gwasanaethau therapiwtig ond dywedodd gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol wrthym eu bod yn eirioli'n gryf i sicrhau bod y plant yn cael mynediad at unrhyw wasanaethau oedd yn cael eu hasesu fel angenrheidiol er mwyn cefnogi eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl. Dywedon nhw wrthym eu bod yn darparu gofal a chymorth fel bod plant yn gallu rheoli a 'gwneud synnwyr' o'u gorffennol a'u hamgylchiadau presennol yn ogystal â'u perthnasau teuluol a theimladau o hunanwerth. Dywedon nhw wrthym eu bod yn darparu gofal a chymorth fel bod plant yn gallu rheoli a 'gwneud synnwyr' o'u gorffennol a'u hamgylchiadau presennol yn ogystal â'u perthnasau teuluol a theimladau o hunan-werth.

Mae hyfforddiant gofalwyr maeth o ansawdd da ond mae angen gwella presenoldeb. Dywedodd y rheolwr fod y calendr hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth wedi'i ddatblygu ymhellach a bod y mwyafrif o ofalwyr maeth wedi mynychu 'hyfforddiant craidd'. Fodd bynnag, dywedodd fod peth 'llithro' wedi bod a bod hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd newidiadau gyda'r staff ac oherwydd gofynion rhai gofalwyr maeth a oedd yn cystadlu. Dywedodd fod eu presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei fonitro o fewn yr adolygiad blynyddol o'u cymeradwyaeth a bod rhai gofalwyr maeth wedi 'cael eu hatal' nes bod hyfforddiant wedi'i gwblhau. Roedd eu cofnodion yn dangos, er enghraifft, fod 44 allan o 57 gofalwr maeth mewn 34 cartref cymeradwy wedi mynychu hyfforddiant diogelu ym mis Mawrth 2018. Roedd y cofnodion hyn yn dangos nad oedd pum gofalwr â swyddi llawn amser wedi mynychu hyfforddiant, er bod eu partneriaid (y prif ofalwyr) wedi gwneud hyn.

Dyweddod gofalwyr maeth wrthym fod ystod ac ansawdd yr hyfforddiant oedd ar gael iddynt yn dda ond roedd weithiau yn anodd mynychu hyfforddiant a grwpiau cymorth ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu. Gwnaethant ddweud ei bod yn arbennig o anodd i ofalwyr maeth sydd yn darparu lleoliadau rhiant a phlentyn ac i'r rhai sydd mewn swyddi llawn amser. Gwnaethant argymhell y dylai trefniadau ar gyfer mynychu hyfforddiant a grwpiau cymorth fod yn fwy hyblyg. Dywedodd y rheolwr ei bod yn ystyried ystod o opsiynau i wneud grwpiau cymorth a hyfforddiant yn fwy hygyrch i ofalwyr maeth. Dywedodd ei bod wedi dechrau darparu cyrsiau hyfforddiant ar benwythnosau a bod rhai o'r gweithwyr gofal maeth yn mynychu cyrsiau 'hyfforddi'r hyfforddwr' fel y gallent ddarparu hyfforddiant gofalwyr maeth mewn ffordd fwy hyblyg – yn eu cartrefi, er enghraifft. Er gwaethaf hyn, gwnaeth gydnabod yr angen i bob gofalwr maeth cymeradwy gyflawni disgwyliadau hyfforddiant.

Mae cefnogaeth ar gyfer gofalwyr maeth yn gyffredinol gadarn ond nid yw wedi bod yn gyson. Dywedodd rhai gofalwyr maeth wrthym eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda iawn gan yr asiantaeth yn gyffredinol ond bod ansawdd y gefnogaeth gan rai aelodau o staff dros dro wedi bod yn anghyson. Dywedodd y rheolwr fod cynnal cysondeb cefnogaeth i ofalwyr maeth wedi bod yn anodd oherwydd newidiadau i'r staff ond bod yr holl swyddi gwag wedi'u llenwi bellach a bod staff newydd yn 'ymgartrefu'n dda' yn eu rolau. Arddangosodd staff newydd y buom yn siarad â nhw ymrwymiad i'w rolau ac roedd adborth gan ofalwyr maeth amdanynt yn gadarnhaol iawn. Cadarnhaodd gofalwyr maeth fod ymweliadau dirybudd wedi cael eu gwneud gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol ac roeddent yn cydnabod pwysigrwydd y rhain. Mae'r cymorth a hyfforddiant sydd ar gael i ofalwyr maeth yn dda ac mae'r asiantaeth yn adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth a hyfforddiant.

Rydym yn dod i'r casgliad fod plant yn profi diogelwch yn eu lleoliadau ac ymlyniadau gyda'u gofalwyr maeth. Mae gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi ac yn wydn ac maent yn 'hyrwyddo' hawliau plant i gael eu gwerthfawrogi fel unigolion a darparu cyfleoedd iddynt gyrraedd eu potensial llawn.

### 3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

#### Crynodeb

Mae'r asiantaeth wedi elwa o arweinyddiaeth gyson, gyda'r un 'unigolyn cyfrifol' mewn swydd ers iddi gael ei chofrestru yn 2004 a'r un rheolwr cofrestredig ers 2014. Mae 'rheolwr gweithredol' yn gyfrifol am oruchwylio'r tîm gwaith cymdeithasol a gweithgareddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae 'rheolwr gweithredol' yn gyfrifol am oruchwylio'r tîm gwaith cymdeithasol a gweithgareddau y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Bu rhai newidiadau o ran y staff ac absenoldebau yn ystod y 12 mis blaenorol ac roedd adborth yn nodi bod hyn wedi cael effaith ar ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd i rai gofalwyr maeth. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd pob swydd wag staff wedi'i llenwi ac roedd 'swydd prif weithiwr cymdeithasol' newydd wedi'i sefydlu i gryfhau cyflenwad a datblygiad y gwasanaeth.

#### Ein canfyddiadau

Mae gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth sy'n cynnwys yr amcanion i'w cyflawni ar ran y plant. Roedd y datganiad o ddiben, dyddiedig 2018, yn glir a chynhwysfawr ac roedd yn darparu disgrifiad cywir o'r gwasanaeth. Roedd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad ac adnoddau'r asiantaeth a'i nodau cyffredinol, ynghyd â'r amcanion ac egwyddorion y byddai'n cael eu cymhwyso i gyflawni'r rhain. Nid oedd yn darparu manylion unrhyw wasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth i blant ond roedd yn gallu cynnwys darpariaeth cefnogaeth a chyingor gan ymgynghorwyr addysg a gadael gofal yr asiantaeth. Cyfeiriodd at drefniadau ar gyfer '*ymgyngori a chyfranogi*' gyda phlant ac eraill ac i '*brosesau ar gyfer monitro ansawdd*', ond nid oeddwn yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'n ddigonol yr ystod o brosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer ymgynghori a gwelliant parhaus y gwasanaeth. Roedd yr asiantaeth wedi llunio '*Canllaw A-Z i The Foster Care Co-operative*' ar gyfer darpar ofalwyr maeth ynghyd â 'chanllawiau ar gyfer plant', a oedd ar gael i wahanol oedrannau. Gwelwyd bod y canllawiau ar gyfer plant wedi'u diweddarau yn 2018 a'u bod yn cynnwys rhifau llinellau cymorth ar gyfer 'Voices From Care' a llinell gymorth arbennig ar gyfer 'Captain Pete', pencampwr yr FCC ar gyfer plant. Rydym yn argymhell bod canllaw gwybodaeth ar wahân yn cael ei gynhyrchu ar gyfer lleoliadau lle y mae 'rhieni a phlant' yn cael llety gyda'i gilydd. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys cyfeiriad gwefan i gael mynediad at ystod ehangach o wybodaeth am y gwasanaeth ond nid oedd yn egluro unrhyw fwriadau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl yn yr iaith Gymraeg.

Mae gofalwyr maeth, aelodau'r panel a staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Roedd sampl o gofnodion staff yn dangos bod yr holl wiriadau recriwtio angenrheidiol wedi cael eu cynnal a dywedodd y rheolwr wrthym fod yr un gwiriadau wedi cael eu cynnal ar gyfer gofalwyr maeth ac aelodau'r panel.

Mae staff yn cael eu hysgogi a'u cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom gwrdd â gweithwyr cymdeithasol yr asiantaeth sydd wedi'u lleoli yn swyddfa Caerdydd a chafwyd ymgynghoriad â'r ddau weithiwr cymdeithasol â chyfrifoldeb dros gefnogi gofalwyr maeth yng nghanolbarth a gogledd Cymru dros y ffôn. Dywedon nhw i gyd eu bod yn derbyn cefnogaeth dda i gyflawni eu rolau a bod eu 'llwythi achosion' yn cael eu 'rheoli' i'w galluogi i ddarparu gofal cadarn i ofalwyr maeth. Roedd y mwyafrif o weithwyr cymdeithasol maeth yn brofiadol yn eu rolau ac yn darparu sicrwydd am ethos plentyn canolog ac uniondeb yr asiantaeth. Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i'w rolau ac i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant.

Nid aethom i'r panel maethu ond gwnaethom gwrdd â'r cadeirydd ac adolygu cofnodion y tri achos panel diweddaraf. Gwnaethom gadarnhau bod cyfansoddiad y panel yn bodloni gofynion deddfwriaethol, bod yr holl aelodau wedi mynychu 'hyfforddiant panel', a'u bod wedi cymryd rhan mewn arfarniad blynyddol. Gwnaethant ddangos eu bod wedi cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr maeth oedd yn mynychu'r panel ac roedd hon yn cynnwys 'canllaw ar y panel maethu' a thaflen wybodaeth gydag enwau a lluniau aelodau'r panel a disgrifiadau byr am eu profiad. Cadarnhaodd trafodaeth gyda chadeirydd y panel a chofnodion o achosion y panel fod eu cyfarfodydd dim ond wedi cael eu cynnal pan oedd cworwm yn bresennol a bod cofnodion y cyfarfodydd yn cynnwys y rhesymau dros eu hargymhellion. Gwelsom fod ffurflenni adborth unigol wedi'u cwblhau gan aelodau'r panel am ansawdd pob asesiad ac yr ymgynghorwyd â gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol maeth ynglŷn â'u profiad o fynychu. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r panel 'Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau'. Roedd adroddiad wedi'i gynhyrchu, dyddiedig mis Ionawr 2016 hyd at fis Mawrth 2017, i adolygu gweithgareddau'r panel, a oedd yn cynnwys ei rôl mewn sicrwydd ansawdd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hyd leoliadau, Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hyd lleoliadau, amhariadau arnynt a sut y daethant i ben, ynghyd â dadansoddiad o atgyfeiriadau a ddefnyddid i dargedu gweithgareddau recriwtio. Mae'r panel yn gweithredu'n effeithiol ac mae'n ychwanegu at brosesau sicrwydd ansawdd.

Mae rheolwyr yn arddangos uchelgais ac maen nhw'n hyrwyddo hawliau plant i dderbyn gwasanaethau o ansawdd uchel. Gwelwyd bod yr adroddiad ar yr adolygiad ansawdd gofal, dyddiedig '2017', yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd sydd eu hangen gan y rheoliadau ac, yn y mwyafrif o achosion, roedd yn cynnwys dadansoddiad ac unrhyw gasgliadau a gyrhaeddwyd neu gamau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau gwelliant. Roedd y rheolwr wedi sefydlu ystod o systemau ar gyfer monitro gweithrediad effeithiol y gwasanaeth ac i ymgynghori gyda'r plant a rhanddeiliaid eraill trwy holiaduron. Fodd bynnag, roedd diffyg data neu ddadansoddiad yn yr adroddiad o'r graddau yr oedd y canlyniadau a fwriedir o leoliadau a chanlyniadau llesiant wedi'u cyflawni ar ran plant. Rydym yn argymhell bod systemau yn cael eu datblygu i werthuso ansawdd y gwasanaeth o ran y canlyniadau arfaethedig sydd wedi'u cyflawni ar gyfer plant a bod mwy o adborth gan blant ac eraill yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau sicrhau ansawdd.

Rydym yn dod i'r casgliad fod heriau dros dro yn sgil newidiadau i'r staff wedi'u rheoli'n effeithiol, bod staff a gofalwyr maeth yn cael eu cefnogi a'u cymell yn dda, a bod plant yn ffynnu mewn lleoliadau cynaliadwy lle maen nhw'n datblygu ymlyniadau diogel wrth baratoi i fod yn oedolion.

## 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad diwethaf.

### 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o'r rhesymau y mae gofawyr maeth yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer plant sy'n cael eu paru gyda nhw a bod hwn yn cyfeirio at yr elfennau penodol ar gyfer paru sy'n cael eu hystyried wrth gytuno ar eu lleoliadau, ynghyd ag unrhyw feysydd lle gallai fod angen i ofalwyr maeth gael cymorth neu hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion. Rydym yn argymhell bod y cofnodion hyn yn cael eu cynnwys mewn cytundebau gofal maeth a/neu lleoliadau maeth.
- Bod trefniadau yn cael eu gwneud i sicrhau bod pob gofalwr maeth yn cyflawni disgwyliadau hyfforddiant.
- Bod y gwaith o drefnu a chydlynu grwpiau cymorth i ofalwyr maeth yn cael ei ailwerthuso. Bod y gwaith o drefnu a chydlynu grwpiau cymorth i ofalwyr maeth yn cael ei ailwerthuso.
- Bod y datganiad o ddiben yn cynnwys manylion unrhyw wasanaethau a ddarperir ar gyfer plant – er enghraifft, y cyngor a chefnogaeth a ddarperir gan yr ymgynghorwyr addysg a gadael gofal ac efallai cydlyniad gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Bod y wybodaeth o fewn y datganiad o ddiben ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer *'ymgyngoriad a chyfranogiad gyda phlant ac eraill'* a'r *'prosesau ar gyfer monitro ansawdd'* yn cynnwys mwy o fanylder ac yn cyfeirio at brosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer ymgynghori a gwella'r gwasanaeth yn barhaus.
- Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw fwriad i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl yn yr iaith Gymraeg.
- Bod canllaw gwybodaeth ar gael ar gyfer lleoliadau lle mae 'rhieni a phlant' yn cael llety gyda'i gilydd.
- Bod adroddiadau am yr adolygiad ansawdd gofal yn cynnwys tystiolaeth o'r graddau y mae'r canlyniadau a fwriedir o leoliadau yn cael eu cyflawni / y cydymffurfir â nhw ar ran plant, fel y nodir mewn cynlluniau gofal a chymorth a chytundebau lleoliad maeth.
- Bod adroddiadau ar yr adolygiad ansawdd gofal yn cynnwys tystiolaeth fwy manwl o'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dilyn ymgynghoriad gyda phlant a rhanddeiliaid eraill am ansawdd y gofal a ddarperir gan yr asiantaeth.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen ar 15, 16 a 19 Mawrth 2018.

Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGC, gan gynnwys yr adroddiad arolygu blaenorol a hysbysiadau o ddiwyddiadau arwyddocaol.
- Ymgynghoriad gyda grŵp o naw o ofalwyr maeth.
- Ymgynghoriad gyda gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yr asiantaeth.
- Ymgynghoriad gyda chadeirydd y panel maethu.
- Ymgynghoriad gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.
- Cafodd holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd gan ddau blentyn.
- Cafodd holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd gan wyth ofalwr maeth.
- Cafodd holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd gan ddau aelod o staff.
- Cafodd holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd gan ddau aelod o'r panel.
- Anfonwyd holiaduron at weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol y plant ond ni ddychwelwyd yr un ohonynt.
- Gwelsom ffeiliau recriwtio pedwar aelod o staff a gwnaethom edrych ar ystod o gofnodion, gan gynnwys y datganiad o ddiben a chanllawiau i'r plant, cytundebau gofal maeth a lleoliadau maeth, asesiadau risg a chynlluniau rheoli risgiau, data hyfforddiant gofalwyr maeth a phroffiliau gofalwyr maeth, cofnodion y panel maethu a'r adroddiad blynyddol, a'r adolygiad addysg ac adroddiad ansawdd gofal blynyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, [www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)

## Ynglyn â'r gwasanaeth

<b>Y math o ofal a ddarperir</b>	<b>Asiantaeth faethu annibynnol</b>
<b>Person cofrestredig</b>	<b>The Foster Care Co-operative Limited</b>
<b>Rheolwr cofrestredig</b>	<b>Kim Perkins</b>
<b>Dyddiad arolygiad blaenorol AGC</b>	<b>6 Rhagfyr 2015</b>
<b>Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn</b>	<b>15, 16 a 19 Mawrth 2018</b>
<b>Iaith weithredol y gwasanaeth</b>	<b>Saesneg</b>
<b>Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?</b>	<b>Nac ydy</b>
<b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>	